

## Bocs pwnc

Mae hwn yn weithgaredd mor amlbwrpas i wneud gyda'ch plentyn. Dewiswch bwnc ac yna helpu eich plentyn i ddarganfod pethau sy'n berthnasol a rhowch nhw yn y bocs.

### Byddwch angen:

- Hen focs/gynhwysydd
- Detholiad o eitemau sy'n gysylltiedig â'ch pwnc, fel:
- Gwyliau: cregyn, cardiau post, lluniau gwyliau, sbectols haul
- Gaeaf: tegan pengwin, menig, plu eira papur

# DYSGU DRWY CHWARAE - Bocs pwnc

## Dull:

- Rhowch yr eitemau yn y bocs/ cynhwysydd
- Wrth i'ch plentyn dynnu eitem allan, gofynnwch iddynt ddisgrifio beth ydyw, pam mae yn y bocs neu ofyn iddynt greu stori

## Manteision y gweithgaredd hwn:

- Bydd yn annog dychymyg a chreadigrwydd eich plentyn
- Mae hyn yn eu hannog i ddefnyddio geiriau disgrifio a datblygu eu sgiliau dweud stori



## RHYBUDD:

Mae angen goruchwyliaeth ofalus gyda darnau bach!

